# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Remote - Digital**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2023

Amser: 09.00 - 10.17

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Heledd Fychan AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Llinos Madeley, Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau'r i'r cyfarfod. Croesawodd y Llywydd Heledd Fychan i'w chyfarfod cyntaf fel aelod o’r Pwyllgor Busnes a diolchodd i Siân Gwenllian am ei chyfraniad at waith y Pwyllgor.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 18.35.

Rhoddodd y Trefnydd wybod i’r Rheolwyr Busnes mai hi fydd yn ateb y Cwestiynau i’r Prif Weinidog heddiw yn lle’r Prif Weinidog.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig bod y Senedd yn ethol yr Aelodau a ganlyn i bwyllgorau, ac i'r cynigion gael eu trafod yn dilyn y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes:

- Mabon ap Gwynfor i gymryd lle Rhun ap Iorwerth ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Heledd Fychan i gymryd lle Sioned Williams ar y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

- Luke Fletcher i gymryd lle Mabon ap Gwynfor ar y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
- Llyr Gruffydd i gymryd lle Heledd Fychan ar Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Adam Price i gymryd lle Peredur Owen Griffiths ar y Pwyllgor Ddeddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
- Peredur Owen Griffiths i gymryd lle Luke Fletcher ar y Pwyllgor Deisebau
- Adam Price i gymryd lle Mabon ap Gwynfor ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Dydd Mercher**

Tynnodd y Llywydd sylw at y newid a ganlyn:

- ~~Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022 – 23 (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 20 Medi*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 19.10.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y byddai angen gohirio'r ddadl Cyfnod 3 ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) o 11 Gorffennaf tan dymor yr hydref, am fod angen cyflwyno gwelliannau yn sgil y newidiadau i'r Bil Caffael yn San Steffan.

Yn gysylltiedig â hynny, tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 11 Gorffennaf 2023**

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Adolygiad Annibynnol ac adroddiadau 2020-21 Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd (30 munud)~~ – *Gohiriwyd tan 12 Medi*
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru – cyflawni blaenoriaethau a rhaglen ddeddfwriaethol y llywodraeth ~~Amcanion Polisi a Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru – adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru~~ (60 munud) *Ailenwyd*
- ~~Dadl: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (60 munud)~~ *Gohiriwyd*

**Dydd Mawrth 12 Medi 2023**

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Adolygiad Annibynnol ac adroddiadau 2020-21 Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd (30 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2023** –

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Blant, Pobl Ifanc ac Addysg – Os nad nawr, pryd? Diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal (60 munud)~~Dadl ar y cyd y Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal (60 munud) *Ailenwyd*

**Dydd Mercher 20 Medi 2023** –

- Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022 – 23 (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

### 3.4 Llythyr oddi wrth gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deisebau ynghylch dadl ar y cyd ar adroddiadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal

Derbyniodd y Pwyllgor Busnes gais y pwyllgorau i gynnal dadl ar y cyd ar eu hadroddiadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gytuno i newid teitl y ddadl ar y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes i adlewyrchu hynny. Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd:

- y byddai'r cynnig ar gyfer y ddadl yn gofyn i'r Senedd nodi adroddiadau'r ddau bwyllgor; ac
- y byddai'r amser a ddyrennir i'r siaradwyr yn cael ei addasu i roi dau funud ychwanegol i Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, gan gydnabod y bydd yn cyflwyno adroddiad y Pwyllgor Deisebau, a dau funud ychwanegol i'r Llywodraeth ymateb i'r ddadl.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ynni i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor

Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad graffu arno, gan nodi mai 15 Medi oedd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad.

Nododd y Pwyllgor lythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Dros Dro at y Gweinidog Newid Hinsawdd yn mynegi pryder difrifol y Pwyllgor am oedi gan Lywodraeth Cymru wrth osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

### 4.2 Bil Diwygio'r Senedd - amserlen

Trafododd y Pwyllgor Busnes amserlen arfaethedig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ystyried Bil Diwygio'r Senedd, a chytunodd i ohirio'r penderfyniad ar y mater hwn nes ei fod wedi ystyried yn llawn y trefniadau ar gyfer craffu ar Filiau sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd, ac wedi ymgynghori â'r Pwyllgor priodol ynghylch amserlen arfaethedig y Bil.

### 4.3 Craffu ar Filiau yn ymwneud â Diwygio'r Senedd

Trafododd y Pwyllgor Busnes opsiynau ar gyfer y dull cyffredinol o graffu ar Filiau yn ymwneud â Diwygio'r Senedd a chytunodd i sefydlu pwyllgor Biliau annibynnol, ac i gyfeirio'r ddau Fil sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd at y Pwyllgor hwnnw ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n ystyried cynnig i'r Senedd y dylai trafodion Cyfnod 2 gael eu cynnal gan Bwyllgor o'r Senedd Gyfan.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n trafod ymhellach y goblygiadau posibl pe bai'r un Pwyllgor yn cael cais i fod yn gyfrifol am graffu ar Fil disgwyliedig ar weinyddiaeth etholiadol a Bil diwygio yn yr un cyfnod.

Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor Busnes yn cytuno y dylid gwahodd y grŵp Llafur i enwebu Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor. Cytunwyd hefyd y dylai'r Pwyllgor gynnwys pedwar aelod (dau o'r Blaid Lafur, un yr un o grwpiau'r Ceidwadwyr a Phlaid Cymru), ac y dylid ystyried ymhellach yr opsiynau ar gyfer cynnwys Jane Dodds.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai aelodaeth y Pwyllgor yn gytbwys rhwng y rhywiau.

Y tu allan i'r cyfarfod, bydd yr ysgrifenyddiaeth hefyd yn rhannu dadansoddiad â'r Rheolwyr Busnes o'r sefyllfa bresennol o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith cadeiryddion ac aelodau'r pwyllgorau.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

### 5.1 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ynghylch yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol ar gyfer 2024-25

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol ar gyfer 2024-25 a chytunodd i ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid ar yr amserlen arfaethedig ac i ddychwelyd at y mater yn eu cyfarfod cyntaf yn nhymor yr hydref.

## 6 Rheolau Sefydlog

### 6.1 Trafod yr adroddiad drafft ar ddiwygio Rheolau Sefydlog: y Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru

Trafododd y Pwyllgor Busnes adroddiad drafft yn cynnwys cynnig am Reol Sefydlog dros dro ar Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru, a chytunodd arno. Bydd cynnig bod y Senedd yn cytuno ar y Rheol Sefydlog dros dro arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'w drafod ddydd Mercher 12 Gorffennaf.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Bwrdd Taliadau Annibynnol i roi crynodeb o'r hyn a benderfynwyd ganddo ac i lywio trafodaethau'r Bwrdd ynghylch y trefniadau o ran tâl y Cyd-gadeiryddion.